



Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

2020-21



Pennaeth:

Matthew H T Evans

Cadeirydd:

Elinor Patchell

Is-gadeirydd:

Simon Williams





Llythyr cyflwyno gan Gadeirydd y Llywodraethwyr: Mr E Patchell

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae'n fraint ysgrifennu atoch eleni ar ran corff llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn dilyn blwyddyn lwyddiannus a brysur arall i'n hysgol.

Mae'n bleser gennyf groesawu Mr Matthew Evans fel ein Pennaeth newydd o fis Medi, sydd wedi arwain cymuned yr ysgol yn dda mewn amgylchiadau anodd.

Hoffwn hefyd dalu teyrnged i arweinyddiaeth ymroddedig a helaeth Mr Alun Davies, a ymddeolodd yn haf 2020. Arweiniodd Mr Davies Glantaf am y ddegawd diwethaf, a thrwy gydol yr amser estynedig hwn, sicrhau safonau uchel Glantaf mewn arholiadau, mewn gweithgarwch allgyrsiol ac wrth wreiddio ysbryd cymunedol gynnes yng Nglantaf. Yn ystod y cyfnod hwn, agorodd y drydedd ysgol, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern ac roedd cefnogaeth ac arweinyddiaeth Mr Davies yn ystod y cyfnod hwn wedi sicrhau'r dechrau gorau posibl i Bro Edern, a rannodd y campws gyda Glantaf yn ystod y flwyddyn gyntaf, yn ogystal â rheoli effaith y newid sylweddol hwn ar ddalgylch a phoblogaeth Glantaf. Ar ran cymuned gyfan yr ysgol a'r Corff Llywodraethu, dymunaf yn dda iddo am ymddeoliad haeddiannol.

Mae pandemig Covid wedi effeithio'n wirioneddol ar bob agwedd ar ein bywydau bob dydd. Yn wir, mae'r effeithiau hirdymor ar ein plant a'n pobl ifanc yn parhau i beri pryder i rieni, a'r system addysg ehangach. Er gwaethaf yr heriau hyn, rwy'n falch bod Glantaf wedi gallu parhau i estyn at ddisgyblion yn ystod cyfnodau gwaethaf y cyfnod clo a'n bod wedi gallu symud ein darpariaeth yn ddi-dor i ddysgu ar-lein. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi elwa'n aruthrol o gefnogaeth a buddsoddiad Cyngor Caerdydd yn ein seilwaith a'n hadnoddau TGCh. Mae hyn wedi cynnwys rhannu dyfeisiau symudol a phecynnau cysylltedd i deuluoedd yn ogystal â sicrhau bod pob aelod o staff addysgu â gliniadur gwaith. Diolch yn ddiffuant i Gyngor Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Caerdydd am eu cefnogaeth i foderneiddio ein darpariaeth, sydd wedi galluogi Glantaf i gyflwyno gwersi a chefnogaeth fyw drwy gydol y flwyddyn anodd hon.

Hoffwn longyfarch myfyrwyr ar ganlyniadau rhagorol TGAU a Safon Uwch a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020. Er i'r rhain gael eu dyfarnu heb drefniadau arferol arholiadau ffurfiol, nid oes amheuaeth nad oedd y canlyniadau hyn yn wirioneddol haeddiannol a bod myfyrwyr yn 2020 wedi dioddef heriau gwahanol wrth iddynt agosáu at ddiwedd eu hastudiaethau. Hoffwn ddiolch i'r staff am eu hymroddiad proffesiynol a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn.

Byddwn yn croesawu aelodau newydd o staff i'r ysgol ym mis Medi, ac yn diolch i'r wynebau cyfarwydd sydd wedi penderfynu ymddeol neu sydd wedi cael eu dyrchafu i swyddi newydd mewn ysgolion eraill.

Wrth gwrs, fel arfer mae gan Glantaf galendr cyfoethog o weithgarwch allgyrsiol ym myd perfformiad, diwylliant a chwaraeon. Cymeradwyaf egni creadigol staff a disgyblion sydd, er gwaethaf y cyfyngiadau sylweddol hynny, wedi ceisio ac wedi llwyddo i barhau i gynneg cyfleoedd allgyrsiol cyfoethog i ddisgyblion. Wrth i ni nesáu at ddiwedd y tymor mae'n wirioneddol galonogol gweld y gweithgareddau gwerthfawr hyn yn dechrau unwaith eto yng nghymuned yr ysgol. I gloi, rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau'r corff llywodraethu am eu gwaith caled yn ystod y cyfnod heriol hwn ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda chi i gyd yn y blynyddoedd i ddod.

Yn ddiffuant,

Mrs Elinor Patchell





Cadeirydd

Adroddiad diwedd blwyddyn gan y Pennaeth, Matthew H T Evans.

Mae'n fraint ac yn bleser cyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn i gymuned yr ysgol yn dilyn fy mlwyddyn gyntaf yma fel Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Cefais groeso eithriadol o gynnes i gymuned yr ysgol hon a mwynhau cwmniaeth a chefnogaeth disgyblion cyfeillgar a staff ymroddgar a pharod eu cymwynas. Er gwaethaf blwyddyn gymhleth, brysur ac anghyffredin, rwy'n credu bod gwaith a gweithgarwch yr ysgol wedi bod yn gyfoethog ac effeithiol a hoffwn ddiolch i holl gymuned yr ysgol am eu brwdfrydedd a'u parodrwydd wrth ymgymryd ac arweinyddiaeth newydd drwy gydol y flwyddyn hon. Yn syml a didwyll iawn, mae'n fraint ymuno â thraddodiad hir a disglair yr ysgol fel Pennaeth yng Nglantaf, ac mae gweithio fel rhan o dîm ymroddgar yn y gwaith yn bleser a mwynhad cyson.



Yn y lle cyntaf, hoffwn dalu teyrnged i waith ardderchog, Mr Alun Davies, cyn-Bennaeth Glantaf a ymddeolodd ar ddiwedd Haf 2020. Gyda chefnogaeth Dr Rhodri Thomas, fel Dirprwy, roedd wedi arwain cymuned yr ysgol yn ddeheuig gan sicrhau cymuned ofalgar a theuluol sy'n ymfalchïo mewn safonau cadarn dros gyfnod estynedig o flynyddoedd.

Bu'n ddechrau anodd i'r ysgol yn Medi 2020 wrth i ni ffarwelio â dau gyn-athro a wnaeth gyfraniad nodedig i fywyd a gweithgarwch Glantaf. Bu Mr Keri Evans yn gyfaill dylanwadol a chymwynasgar i holl aelodau Glantaf, yn athro addysg gorfforol, yn Arweinydd Blwyddyn ac yn Uwch Arweinydd bu'n gyson ei olwg a'i gefnogaeth i ddisgyblion yr ysgol hon. Roedd yn ŵr bonheddig oedd yn gweld yr ochr orau, yn gymeriad llawen a chymwynasgar, a'i uchelgais dros blant a phobl ifanc yn rhan annatod o'i bersonoliaeth. Nid oedd yn syndod felly gweld y gymuned honno yn arddangos ei gwerthfawrogiad ohono ar iard yr ysgol wrth ffarwelio ac anfonwn ein diolch a'n cydymdeimlad dwysaf at ei deulu a'i gydnabod yn eu hiraeth. Trist hefyd oedd clywed am golli Mrs Ethni Jones, oedd unwaith eto ag afiaith a brwdfrydedd aruthrol fel athrawes, fel rhiant ac fel ymgyrchydd diflino dros Addysg Gymraeg ac Addysg Anghenion Arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cyfraniad Ethni i waith yr ysgol hon a'i chysylltiadau dwys ac addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddinas ac ar draws Cymru yn golygu bod ei henw a'i chyfraniad yn mynd o'i blaen. Er hynny, person â'i thraed ar y ddaear oedd Ethni, ei llawenydd a'i brwdfrydedd dros blant a phobl ifanc yn pefrio pob trafodaeth ac eto diolchwn am ei chyfraniad, ei hegri a'i gweledigaeth.

Drwy gyfnod heriol o ymbellhau, o gadw ar wahân ac o gyfnod clo, rydym yn anfon ein cydymdeimlad a'n cefnogaeth mwyaf didwyll at ein cymuned gyfan sydd wedi colli aelodau o'u teuluoedd, wedi galaru a hiraethu a hynny heb gefnogaeth wyneb yn wyneb. Edrychwn ymlaen at glosio yn fuan unwaith eto ac i gefnogi ein gilydd a'n pobl ifanc fel y dylem wneud yn gyson, yn bersonol ac yn adeiladol.



Prif Swyddogion 2020-21:
Rhodri, Catrin, Rebecca a Betsan

Dyma flwyddyn ryfeddol ac anghyffredin yn hanes yr ysgol, ond hefyd drwy Gymru a'r byd yn sgil afiechyd Cofid-19 a'r effaith ar addysg ein plant a'n pobl ifanc. Serch hynny, nid wyf am ffocysu ar effaith negyddol y pandemig, ond yn hytrach ar flwyddyn nodedig yn hanes ein ysgol, gwaith ein plant a'n pobl ifanc a'r gefnogaeth arbennig iddynt gan ein staff, a chwithau fel rhieni a llywodraethwyr.

Er iddi fod yn flwyddyn gyfyngedig o ran presenoldeb yn yr ysgol, mae wedi bod yn flwyddyn o brysurdeb anhygoel. Yn benodol rwy'n rhyfeddu at greadigrwydd a pharodrwydd staff a'n disgyblion i



Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

ymroi i ffyrdd newydd o weithio, o edrych yn hyblyg am ddatrysiadau ac am gefnogi ei gilydd yn gyson a chydlynus. Ar yr adeg hon o ysgrifennu adroddiadau, o edrych yn ôl dros weithgareddau'r flwyddyn byddwn yn dymuno diolch i holl staff yr ysgol am eu brwdfrydedd a'u hegni creadigol er budd ein plant a phobl ifanc.

Yn wir, o ddechrau'r tymor yn ôl yn nyddiau cynnar Medi, aeth yr ysgol ati i baratoi yn ofalus am sialensiau'r flwyddyn a oedd o'n blaen. Mudodd holl gymuned yr ysgol i lwyfan dysgu **hwb**, gan adael cyfrifon ebyst a cofleidio llwyfan dysgu genedlaethol oedd yn rhoi cymaint o fanteision i'n dysgwyr. Dyma lwyfan cyfan gwbl ddwyieithog gydag adnoddau rhyngweithiol ardderchog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg sy'n hyrwyddo sgiliau ein dysgwyr. Mae'n cynnig adnoddau *Microsoft* am ddim i bob person ifanc, yn hwyluso cyfathrebu diogel ac yn datblygu adnoddau newydd yn gyson. Roedd yn gerbyd pwrpasol i sicrhau bod Glantaf yn arwain y ffordd o ran cynnig darpariaeth dysgu o bell gyfoethog a chyflawn i bob disgybl. Cafodd ein Cytundeb Dysgu Cyfunol (Atodiad A) ei rannu'n eang a'i ganmol am sicrhau bod disgyblion yn parhau i ymgysylltu a'u hathrawon, yn cadw trefniadaeth arferol dyddiol ac yn hyrwyddo addysgu byw a chyswllt cyson



Eisteddfod T: Gwaith Celf hyfryd gan ddisgyblion Canolfan Glantaf

Ar ddiwedd 2020/21 hoffwn ddiolch o galon i'r aelodau staff hynny sydd wedi cael eu penodi i swyddi eraill neu sydd wedi dewis ymddeol yn ystod y flwyddyn neu ar ddiwedd tymor yr haf. Hoffwn yn gyntaf ddiolch i Mr Haydn Pritchard sydd yn ymddeol ar ôl 24 mlynedd o wasanaeth yn yr ysgol fel Arweinydd Adran Dylunio a Thechnoleg, llawen ac ymroddgar. Mae cefnogaeth Mr Pritchard i weithgareddau a mentrau yn yr ysgol ar hyd cyfnod estynedig o flynyddoedd yn nodedig, gyda gwaith cyson yn arwain yr adran ond hefyd yn cyfrannu at faes Chwaraeon a gweithgaredd allgyrsiol. Bu cefnogaeth Mr Pritchard o fewn cymuned yr ysgol yn gwbl gadarn ac hoffwn ddiolch iddo am flynyddoedd o wasanaeth a chwmnïaeth llawen. O fewn yr adran hefyd bu i ni ffarwelio â Mrs Siwan Hill, athrawes Tecstilau uchel ei pharch a oedd yn cyfrannu'n ymarferol i fywyd a gweithgaredd yr ysgol mewn lluo o wahanol ffyrdd. Yn ymddeol yn rhannol mae Mrs Claire Wilson, sef Arweinydd Canolfan Glantaf, er y bydd yn parhau i weithio gyda ni yn rhan amser o Fedi eleni. Mae gwaith Mrs Wilson gyda disgyblion y ganolfan ac wrth ddatblygu arbenigedd ein darpariaeth a'n gofal wedi bod yn hollol nodedig. Dyma arweinydd gofalgarg, creadigol ac ysbrydoledig sydd wedi trawsnewid ein darpariaeth a gweld twf sylweddol o fewn yr adran dros y blynyddoedd, ac ymfalchiwn y bydd Mrs Wilson yn parhau gyda'i gwaith o Fedi eleni. Hoffwn ddymuno'n dda i Mrs Joanne Parry, (Adran Saesneg) wrth iddi ymadael â Glantaf i ymgymryd â menter busnes gyda'i theulu ac i Ms Sian Williams, (Adran Fathemateg) wrth iddi ddewis dilyn astudiaeth uwch yn y byd ymchwil academiaidd. O ran staff cynorthwyo dysgu, hoffwn ddymuno'n dda i Ms Leah Gravell sy'n ymadael i ddilyn cwrs ymarfer dysgu a Mr Evan Thomas sy'n parhau â'i astudiaethau wrth gychwyn ei gwrs yn y Brifysgol.

Mae nifer o staff wedi dewis newid eu cyfrifoldebau o fewn yr ysgol, yn eu plith Mrs Bethan Davies a Mr Andrew Walpole fydd yn camu o'u rôl fel Arweinyddion Cynnydd a Lles. Mae Mrs Davies a Mr Walpole yn arweinwyr profiadol, uchel eu parch o fewn cymuned yr ysgol a hoffwn ddiolch iddynt yn ddidwyll am eu harweiniad, eu gofal a'u hymroddiad yn y rolau bugeiliol allweddol hydros gyfnod helaeth o flynyddoedd. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Mrs Michelle Pugh am ei gwaith yn arwain ar y cyd, Y Fagloriaeth Gymreig dros y blynyddoedd diwethaf, gan arwain staff yn ddeheuig i gyflwyno cymhwyster gwerthfawr a chyffrous o fewn cymuned yr ysgol.



Pobi ar Ddydd Di-Sgrin!

Bu'n flwyddyn hefyd o newid o ran staff gweinyddol, cynorthwyol. Hoffwn ddymuno'n dda i Mr Gareth Jones, Rheolwr Busnes Glantaf wrth iddo ymddeol ym Mis Awst a diolch iddo am ei afael gadarn iawn ar fuddiannau cyllidol ac adnoddau'r ysgol ers cyfnod helaeth. Mae adnabyddiaeth Mr Jones o'r ysgol a'i ddealltwriaeth aeddfed o anghenion byd addysg wedi bod yn gaffaeliad sicr wrth iddo fynnu egwyddorion gwerth am arian wrth arwain ar gyllidebu mewn cyd-destun cyllidol heriol. Yn ymddeol hefyd oedd Mr Charlie Percy a Mrs Catrin Bevan. Roedd Mr Percy yn un o'r technegwyr TGCh cyntaf yng Nglantaf a wnaeth arwain nifer o ddatblygiadau newydd o ran technoleg yn yr ysgol. Hoffwn ddymuno'n dda hefyd i Mrs Bevan wrth iddi gychwyn ei hymddeoliad ar ôl treulio sawl blwyddyn yn cefnogi gwaith adrannol a gweinyddol yr ysgol mewn sawl rôl o fewn yr ysgol. Cafodd Mr Alex Jones, Technegydd TGCh ei ddyrchafu i rôl yn Ysgol Uwchradd Pencoed, a byddwn yn ffarwelio â'n Swyddog Teulu, Ms Imogen Young, wrth iddi ddechrau cwrs ymarfer dysgu ym Medi.

Ar ran pawb ohonom yng Nglantaf, ein diolch diffuant a'n dymuniadau gorau i'r dyfodol i'r unigolion arbennig yma am eu gwaith, cwmnïaeth a'u cyfraniad.

Perfformiad yr ysgol

Nid oedd myfyrwyr yng Nghymru yn gallu sefyll arholiadau yn haf 2020, ac felly ni fydd data perfformiad ysgolion ar gyfer Haf 2020 yn cael ei gyhoeddi fel mewn blynyddoedd blaenorol. Yn amlwg, nid yw dadansoddiad neu ddata cymharol yn bosibl o dan yr amgylchiadau hyn, ond roedd cysylltiad agos rhwng canlyniadau Glantaf a pherfformiadau blynyddoedd blaenorol ym mhob pwnc unigol.

Mae angen i mi longyfarch y myfyrwyr am eu gwaith rhagorol yn eu canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn Haf 2020 a rhannu eu llwyddiannau yn yr adroddiad hwn. Er nad oedd yr arholiadau ffurfiol wedi gallu cael eu cynnal yn sgil y cyfnod clo cyntaf, roedd gwaith paratoi a chyrhaeddiad safonol myfyrwyr BI 11 a 13 yn golygu bod athrawon wedi bod yn hyderus iawn i bennu graddau unigol ymhob pwnc. Er na fu adolygu ffurfiol, sefyll arholiadau mewn neuadd na chyhoeddi canlyniadau fel yn arferol, rydym yn gwbl hyderus bod y graddau a ddyfarnwyd yn gwbl deilwng a haeddiannol i ddisgyblion a wnaeth eu gorau o dan amgylchiadau anodd a hollol anarferol. Llongyfarchiadau i'r disgyblion felly am eu gwaith caled a'u gwydnwch ac i'w hathrawon a'u rhieni am eu cefnogaeth a'u harweiniad.

Canlyniadau TGAU / Lefel 2 Galwedigaethol

Roedd canlyniadau TGAU / Galwedigaethol yn haf 2020, yn rhagorol, gydag 86% o ddisgyblion yn ennill 5 cymhwyster A*-C a 50% yn ennill 5 cymhwyster A*-A. Llwyddodd 75% o ddisgyblion i ennill 5 A*-C gan gynnwys Mathemateg a naill ai Cymraeg neu Saesneg a llwyddodd 98% o'r disgyblion i ennill 5 A*-G. Yn sgil y pandemig, nid oes data mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi. Serch hynny, mae canlyniadau Glantaf y llynedd yn dilyn patrwm cryf o berfformiad safonol iawn dros y bedair blynedd diwethaf ac yn debyg i ysgolion cymharol.



BI 10 yn wynebu'r Dreigiau, her Menter y Fagloriaeth

Unwaith eto, mae'n braf dathlu llwyddiant yn y Fagloriaeth Gymreig ble llwyddwyd i gynnal A*-C o 90%. Mae hyn yn cyfeirio at waith disgyblion yn sydd â safon uchel a ble mae'r canlyniadau y tystysgrif her sgiliau yn adlewyrchiad o safon y gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Rydym yn eithriadol o falch o hyrwyddo a chefnogi y cymhwyster gwerthfawr hwn ymysg cymuned yr ysgol.

Safon Uwch a lefel 3 Galwedigaethol

Roedd BI13 hefyd yn dathlu graddau cwbl haeddiannol yn haul mis Awst gyda nifer o ddisgyblion a berfformiodd i safon uchel iawn. Braf eithriadol yn nodi fod 36% wedi llwyddo i

ennill 3 A*/A a phob un disgybl wedi llwyddo o ran sicrhau eu dewis lle yn eu dewis cyntaf neu ail o ran dewis Addysg Uwch.

Roedd y llwyddiannau hefyd yn cynnwys cynnydd yn y niferoedd a enillodd gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Braff oedd nodi bod cymaint o'n disgyblion (55%), yn ennill y radd A*/A yn y cymhwyster. Yr ydym yn hynod falch o'n myfyrwyr sydd yn rhagori yn y Fagloriaeth, sydd wedi tyfu o ran statws, perthnasedd a gwerth dros y blynyddoedd diwethaf.

Addysgu Cyfunol / Dysgu o Bell

Yn anffodus efallai, bydd eleni yn cael ei chofio am ein profiad o flaen ein cyfrifiaduron ac o'r amser y bu i ni syllu ar ein sgriniau. Mae profiadau estynedig o Teams a Google Classroom wedi nodweddu ein gwaith ac wedi golygu er i ni aros adref, parhaodd y profiadau gwerthfawr, y sgysiau a'r drafodaeth addysgol. Yng Nglantaf, blaenoriaethwyd "addysgu byw" o'r dechrau gyda addysgu yn symud i Teams yn syth pan by rhaid ynysu grŵp / blwyddyn neu'r ysgol gyfan. Roedd cadw at yr amserlen arferol (er

cwtogi amser y gwersi byw) yn ffactor allweddol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cadw at drefn y dydd ysgol ac yn ceisio sicrhau hybu ymdeimlad o undod a gwaith cydlynus. (Cytundeb Dysgu Byw Glantaf : Atodiad A).



Dysgu Byw Glantaf 2021: peidiwch diffodd eich camera!

Rhan hanfodol o'n cynnig oedd sicrhau bod gan bob disgybl fynediad at gysylltiad Wi-Fi da a defnydd o ddyfeisiau digidol priodol. Roeddem yn gallu cynnig gluniaduron, chromebooks ac chluniaduron wedi'u hail-fodelu i nifer o ddisgyblion yn ogystal ag dongl Wi-Fi a chysylltiadau i sicrhau bod gan bob disgybl y modd i elwa o'n darpariaeth ar-lein. Rhoddodd Cyngor Caerdydd gefnogaeth ragorol i sicrhau bod y cynnig hael hwn yn cael ei wireddu'n gyflym ac yn effeithiol ar gyfer disgyblion Glantaf.

Bu i ni werthuso ac addasu ein darpariaeth yn ystod y flwyddyn ac yn arbennig yn Nhyrnor y gwanwyn, aeth athrawon ati yn benderfynol o amrywio darpariaeth, i brofi strategaethau newydd ac i beilota llwyth o apiau / llwyfannau ymgysylltu a strategaethau amrywiol i gael plant i ymateb, i hybu dysgwyr annibynnol ac i sicrhau ymgysylltu a mwynhad o ddyddu. Ymysg y strategaethau ac arfer a dreialwyd ac a ddefnyddiwyd yn y cyfnod hwn mae:

Ystafelloedd sgwrsio
Jamboard
Mote
Wordwall
Adobe Spark

Apiau Bwrdd Gwyn
Google sites & gradebook
Quizlet Live
Pad ysgrifennu digidol
Kialo Edu

Flipgrid
Spiral
Mentimeter
Codio deuol
Padlet

Fel corff o staff rydym yn werthfawrogol o amynedd ac adborth ein disgyblion a'n rhieni drwy gydol y cyfnod a oedd yn golygu bod ein addysgu yn ffres yn heriol ac yn hwyll!

Webinarau Hawl i Holi, Gwasanaethau wythnosol a Dyddiau Di-Sgrin

Un o ddatblygiadau mwyaf poblogaidd y cyfnod oedd sefydlu Webinarau wythnosol *Hawl i Holi* gyda chyn-ddisgyblion Glantaf. Wrth gwrs, roedd lluo o enwau ac unigolion posib i'w gwahodd ond dewiswyd amrywiaeth o unigolion o wahanol yrfaedd neu feysydd i rannu eu profiadau gyda disgyblion presennol yr ysgol. Rhaid talu teyrnged nid yn unig i gyfraniad gwerthfawr ein siaradwyr gwadd ond hefyd i aelodau'r chweched dosbarth wnaeth gynnal



pob un sesiwn gyda eu cwestiynu aeddfed, eu sgiliau ymholi medrus a'u chwilfrydedd naturiol. Sesiynau bywiog a byrlymus gyda unigolion dylanwadol o sawl maes a fydd yn sicr yn rhan o'n darpariaeth wrth ddychwelyd yn ôl i normalrwydd gwell ôl-Cofid! Roedd ein siaradwyr gwadd yn cynnwys:

Connagh Howard
Eluned Morgan AS
Dewi Preece
Leo Drayton
Dr Rhian Meara
Rhys Meggy
Dr Carys Lloyd
Rhys Patchell

Model a Chyflwynydd "Cymru, Dad a Fi!"
Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Gymraeg
Newyddiadurwr, Seland Newydd
Ymgyrchydd Cymuned LGBTQ+
Darlithydd, Prifysgol Abertawe
Bargyfreithiwr, Llundain
Meddyg teulu, Abertawe
Maswr Scarlets a Chymru



Gwerth nodi hefyd y gwaith gwych a wnaethpwyd i hybu addysg gysylltiedig â gwaith mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru. Cynhaliwyd dyddiau a gweithdai cyfoethogi gyrfaoedd arbennig dan arweiniad Mrs Gwen Morgan. Yn sgil y profiadau hyn cynhaliwyd Webinarau pellach i ddisgyblion BI 11 i ddewis cyrsiau yn y Chweched Dosbarth (gyda BI13 yn arwain). Ymunodd y Farwnes Sherlock â webinar i fyfyrwyr Economeg a Gwleidyddiaeth a cynhaliwyd webinarau i gynnal ffug-etholiad ysgol a hystings etholiad Prif Swyddogion.

Er mwyn hwyluso ymdeimlad o berthyn, a hyrwyddo negeseuon i hybu iechyd meddwl iach, gwnaethom benderfyniad i gynnal gwasanaethau blwyddyn wythnosol a chyfnodau bugeiliol gyda'r athro dosbarth ddwywaith yr wythnos. Er rhaid cyfaddef i bresenoldeb yn y cyfnodau rhain leihau yn sylweddol erbyn diwedd Tymor y Gwanwyn, roeddynt yn gyfleoedd gwych i rannu negeseuon gyda disgyblion, i hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, i gynnig syniadau difyr o ran coginio, i argymhell rhaglenni diddorol neu gerddoriaeth gyfoes neu i hybu gweithgaredd i gefnogi elusennau.

Mewn ymateb i bryderon staff, rhieni a disgyblion am y cyfnodau estynedig o syllu ar sgrin ac o fod ynghlwm ar waith cyfrifiadur, cawson ddau ddydd o weithgareddau di-sgrin! Roedd yn braf cynnal dau ddydd i hybu gweithgareddau creadigol ac ymarferol i ymarfer sgiliau cyfathrebu a rhyng-bersonol yn y Gymraeg. Cafwyd ymateb bendigedig i nifer o'r gweithgareddau rhain a diolch i'n pobl ifanc am eu brwdfrydedd, eu hasbri a'u parodrwydd i rannu eu profiadau â ni yn dilyn y dydd.

Hybu'r Gymraeg, "Gwyl Gwnewch y Pethau Bychain", Eisteddfod T

Un o'r prif flaenoriaethau yn ystod y cyfyngiadau clo oedd sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg ac i'w hysbrydoli i gysylltu â chyfleoedd i glywed a phrofi'r iaith. Roedd hyn yn cynnwys ein "Trac yr Wythnos" o'r Sin Gerddoriaeth Gymraeg a'r wyl "Gwnewch y Pethau Bychain" a ddisodlodd ein dathliad Eisteddfodol blynyddol. Roeddem hefyd wrth ein bodd gydag ymateb disgyblion i gystadlaethau'r Urdd yn Eisteddfod T. Cafwyd llawer o uchafbwyntiau o Lantaf, o grŵp *Canolfan Glantaf, Fotosynthesis*, i enillwyr gwaith cartref, llwyddiant Mathemateg, cyfansoddi, gwaith celf a dylunio, ffotograffiaeth i ensembles, deuawdau ac unawdau bendigedig gan ddisgyblion unigol.

Darpariaeth hwb

Drwy gydol Tymor y Gwanwyn, er i'r mwyafrif helaeth o staff a disgyblion barhau â'u gwaith o gartref, arhosodd yr ysgol ar agor a chroesawyd disgyblion i'r ysgol bob dydd. Roedd ein darpariaeth Hwb yn cynnig cymorth gofal plant a lles i ddisgyblion Gweithwyr Allweddol a'r disgyblion hynny yr oedd gwir angen cymorth wyneb yn wyneb arnynt. Cafodd y ddarpariaeth hon ei staffio'n rhagorol gan ein tîm profiadol o Gynorthwyrwyr Cymorth Dysgu ac Uwch Arweinyr. Mwynhaodd y disgyblion eu hamser yn yr hwb ac roeddem



yn gallu gwahodd y disgyblion hynny a oedd yn cael trafferth gyda dysgu ar-lein am rywfaint o gymorth unigol gydag athrawon neu staff penodol.

Nosweithiau a Chyswllt Rhieni (Atodiad B)

Un o rwystredigaethau amlwg y cyfnod clo oedd y cyfyngu ar ein gallu i gyfathrebu yn uniongyrchol gyda rhieni, yn enwedig sgysiauw ynneb yn ynneb i drafod cynnydd a lles ein disgyblion. Er y gwnaeth yr ysgol ymdrech i gysylltu gyda disgyblion a theuluoedd drwy alwad ffon uniongyrchol, roedd hi'n dasg feichus a chymharol amhosib i gysylltu yn systematig ac yn effeithiol drwy ffonio. Yn lle hynny felly, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd byw drwy *Teams* fel nosweithiau gwybodaeth a chyfluoedd estynedig i rieni i holi cwestiwn arlein i arweinwyr ac athrawon yn yr ysgol. Yn gynnar yn Ionawr cynhaliwyd nosweithiau rhieni i Bl 12 a 13 i drafod cynnydd myfyrwyr unigol a chyn diwedd y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd rhieni i bob blwyddyn drwy ddefnyddio technoleg *School Cloud*, sy'n darparu cyfarfodydd preifat un i un gyda athrawon unigol. Yn ogystal cynhaliwyd nosweithiau lawnsio opsiynau (Bl 8, 9 & 11), taith sgio a nosweithiau agored Bl 6 a Chweched Dosbarth drwy gyfrwng y dechnoleg newydd. (Gweler rhestr lawn o gyfarfodydd rhieni yn Atodiad B).

Cafwyd adborth dda i'r cyfarfodydd gyda sawl rhiant yn falch o gael cyfle i drafod gwaith eu plant mewn ffordd mor rhwydd. Byddwn yn sicr am fabwysiadu'r dechnoleg newydd i gynnal rhai cyfarfodydd i'r dyfodol gan gynnwys nosweithiau rhannu gwybodaeth, nosweithiau lawnsio opsiynau a rhai nosweithiau rhieni. Serch hynny, rydym hefyd yn gweld gwerth amlwg yn y cyfarfodydd ynneb yn ynneb.

Datblygiadau Cwricwlaidd & Cwricwlwm i Gymru

Yn anffodus, mae cyfyngiadau Cofid wedi rhwystro ein bwriad i edrych eto ar ein darpariaeth gwricwlaidd a threialu cysiauw newydd i'n myfyrwyr. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys dau gwrs newydd ar gyfer disgyblion CA4 o fis Medi 2021, cwrs Gofal Plant a Gweithgareddau Awyr Agored a fydd yn ymestyn ein cynnig galwedigaethol ar gyfer y dyfodol.



Arweinwyr Creadigol Bl 9, wedi'i ariannu gan y Cyngor Celfyddydau

Bydd Glantaf yn treialu cwrs newydd o fis Medi 2021 sydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â dyluniad cwricwlwm newydd *Cwricwlwm i Gymru* gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cwrs newydd hwn yn dod ag athrawon o bob un o'r chwe Maes Dysgu, 'Ieithoedd a Chyfathrebu'; 'Celfyddydau Perfformio'; 'Mathemateg a Rhifedd'; 'Dyfiaethau', 'STEM' ac 'Iechyd a Lles' i greu cynlluniau gwaith sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar sgiliau cyfredol disgyblion. Un o'r manteision ymarferol fydd y cyfle y mae hyn yn ei gynnig i athrawon o wahanol arbenigedd pwnc i weithio a chynllunio tasgau gyda'i gilydd. Bydd y cwrs newydd yn ceisio canolbwyntio ar feithrin gwydnwch a lles disgyblion ac ymgeisio i ddatblygu hunaniaeth leol disgyblion o fewn cyd-destun Ewropeidd o osod cyd-destun ar gyfer eu treftadaeth a'u traddodiad Cymreig. Rydym yn falch bydd y gwaith yma, yn cael ei rannu ag ysgolion eraill drwy gyllid a sicrhawyd gan Gonsortiw Canolbarth y De.

Yn dilyn ein HMS a gyflwynwyd gan *Race Equality First*, roeddem yn falch o weld sawl adran yn adolygu eu cwricwlwm i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth. Cwblhawyd gwaith diddorol ar *Adfyd ac Amrywiaeth* yn Saesneg; *Disodli Cerfluniau* yn y Gymraeg a *Hiliaeth ym Mhrydain* o fewn Addysg Grefyddol a thrafodaethau craff yn dilyn tasg ar ogwydd mewn data yn TGCh. Mae'r datblygiadau cwricwlaidd hyn yn hollbwysig wrth i Glantaf sylweddoli newid yn y dalgylch a'r croeso i ehangu amrywiaeth yn yr ysgol. Trafodwyd y newidiadau hyn gyda grŵp o rieni sy'n awyddus i weld Glantaf yn adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog y Ddinas yn gywir. Bydd adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru, "*Cyfraniadau a Chynefin*", dan gadeiryddiaeth yr Athro Charlotte Williams hefyd yn rhan o'n rhaglen HMS ar gyfer



2021/22, wrth i ni gymryd rhan ragweithiol yn yr agenda fywiog hon i adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth ein treftadaeth ddiwylliannol gyffredin.

O fewn y Chweched Dosbarth, roedd twf pellach yn y niferoedd sy'n dewis dychwelyd neu ymuno â Glantaf, gyda 73% o'r garfan yn dychwelyd i ddechrau astudiaethau ôl-16 ym mis Medi 2021. Rydym hefyd yn falch o barhau â'n cynigion partneriaeth drwy BroPlasTaf, sy'n ymestyn ein dewisiadau colofnau opsiwn gyda 35 o gyrsiau gwahanol i fyfyrwyr yn y Chweched Dosbarth.



Ymwybyddiaeth Miri Melyn 2020

Roeddem yn falch iawn o gryfhau ein hymrwymiad i ddatblygu'r cwricwlwm traws-sector o fewn Clwstwr Glantaf. Roedd hyn yn cynnwys Prosiect Blwyddyn 4 arloesol, a welodd bob Dosbarth Blwyddyn 4 o fewn y Clwstwr yn gefeillio ag ysgol arall ac yn gweithio gyda'i gilydd i ymchwilio i'r ardal leol a'i hunaniaeth. Mae'r adborth cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn sy'n datblygu sgiliau *Siarad a Gwrando* yn gadarnhaol dros ben ac yn cynnig ffordd gyffrous i'r Clwstwr ddatblygu'r cwricwlwm gyda'i gilydd ac mewn cydweithrediad agosach. Mae ein cynlluniau clwstwr presennol yn cynnwys bwriad i gydweithio ar y maes dysgu Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn ystod 2021/22.

Ymwelodd aelodau o'n Corff Llywodraethu â phob adran i gymryd rhan mewn cyfarfodydd adrannol ac i glywed am ddatblygiadau cwricwlaidd cyfredol. Mae'r ymweliadau cyswllt hyn yn sicrhau bod y Corff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad proffesiynol staff, yn ogystal â sicrhau bod Penaethiaid Adran yn cael cefnogaeth dda yn eu gwaith. Roedd hefyd yn fuddiol clywed am ddau ddatblygiad a ddaeth yn uniongyrchol o'r sgysia hyn, gwaith partneriaeth gydag Adran Ddaeryddiaeth Abertawe ag ymweliad gan *Live Music Now* â *Chanolfan Glantaf*.

Gwaith partneriaeth wrth ddatblygu cwricwlwm

Un o nodweddion allweddol adeiladu cwricwlwm newydd yw creu partneriaethau newydd a gweithio'n agos gydag ysgolion a sefydliadau eraill er mwyn rhannu canfyddiadau ac adeiladu arfer da. Roeddem yn falch iawn o weld nifer o bartneriaethau newydd yn cael eu sefydlu yn ystod y flwyddyn er nad oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn bosibl.

Gweithiodd Glantaf yn agos gyda darparwr AGA Prifysgol Fetropolitan Caerdydd fel Ysgol Hyfforddiant Clinigol, gan groesawu 24 o athrawon dan hyfforddiant ar draws sawl adran. Gwahoddwyd Mrs Megan Ruming, Pennaeth Cynorthwyol (Addysgu a Dysgu) i grwp datblygu Llywodraeth Cymru, *Siarad am Addysgeg*, gan ddefnyddio gwaith peilot o'n adrannau. Arweiniodd Mr Owain Sion Williams, Pennaeth Cynorthwyol (Asesu) ar waith peilot gydag Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, o fewn Marcio ac Adborth, gan ddefnyddio strategaethau gwahanol i hyrwyddo adborth effeithiol. Roeddem hefyd yn falch iawn o ail-lansio ein gwaith mewn *Siarad a Gwrando* drwy sefydlu grŵp traws-sector o fewn ein Clwstwr yn edrych ar waith *Llais 21*.

Mae Glantaf hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill, yn CYDAG (Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ledled Cymru) a GYDA'n Gilydd (Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yng Nghonsortium Canolbarth y De). Un o nodweddion allweddol ein gwaith eleni oedd cynnal trafodaethau strategol gyda Chymwysterau Cymru a CBAC ynghylch ymestyn y cynnig galwedigaethol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae Glantaf wedi bod yn bartner allweddol i sefydlu gweithgornau sy'n adlewyrchu chwe sector allweddol o ddysgu galwedigaethol: Busnes / Gwasanaethau Cyhoeddus / Chwaraeon ac Addysg Awyr Agored / Twristiaeth / Gofal Plant a'r Celfyddydau Creadigol. Mae gan y grwpiau hyn gynrychiolwyr o ysgolion Cymraeg ar draws De Cymru ac maent yn cydweithio â




Bl 10 yn ymweld â Pwll Coch

CBAC ac Agored Cymru i adolygu meysydd llafur cyfredol er mwyn adlewyrchu anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn well ar gyfer y dyfodol.

Ar gyfer mis Medi 2021, mae Glantaf yn falch o gael ei derbyn fel Ysgol Bartner gyda llwybr hyfforddi athrawon rhan-amser y Brifysgol Agored, yn ogystal â chael ei derbyn fel ysgol bartner Llywodraeth Cymru ar lwybr pontio Uwchradd > Cynradd i athrawon. Mae'r cyrsiau hyfforddi hyn sydd wedi'u hariannu'n llawn neu a ariennir yn rhannol yn ymestyn ein cronfa o staff addysgu ac yn cynyddu capasiti gweithlu addysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dyfodol.

Buddsoddiad Digidol Cyngor Caerdydd



Roeddem wrth ein bodd bod Glantaf wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol mewn Technoleg Ddigidol eleni gan Gyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Pan wnaethom geisio cymorth i foderneiddio ein seilwaith yn yr ysgol, cawsom gefnogaeth ragorol gan Arweinydd Digidol, Mr Richard Clement o Gyngor Caerdydd a Mr Richard Brown, Rheolwr Rhwydwaith o Ysgol Uwchradd Caerdydd. Mae'r cymorth hwn wedi ein galluogi i symud tuag at uwchraddio gweinyddion, switshis a chysylltedd yn sylweddol drwy'r ysgol (Grant

EdTech), yn ogystal â gosod 78 o sgriniau rhyngweithiol SMART ym mhob un o'n hystafelloedd dosbarth a'n manau addysgu. Mae hwn yn fuddsoddiad ariannol trawsnewidiol yn ein darpariaeth, sy'n werth o leiaf £350k dros y deng mis diwethaf. Bydd yr uwchraddio hwn mewn technoleg clyweledol yn cael ei wireddu yn y pen draw ym mhob ysgol yng Nghaerdydd, ond mae statws peilot Glantaf yn golygu y bydd ein staff yn elwa o hyfforddiant helaeth dros y misoedd nesaf, yn ogystal â chreu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer ysgolion eraill.


Mae gan uchelgais ddigidol Cyngor Caerdydd botensial trawsnewidiol ar gyfer addysg a phobl ifanc yn ein dinas. Mae gan Gyngor y Ddinas uchelgais cwbl ardderchog i ddarparu dyfais bersonol unigol i bob plentyn a pherson ifanc dros y ddwy flynedd nesaf, a buddsoddiad enfawr mewn offer TGCh yn yr ysgol. Rydym eisoes wedi gweld effaith y buddsoddiad hwnnw gan fod y Cyngor wedi darparu gluniadur gwaith i bob aelod o staff addysgu (gyda mwy i gyrraedd yn ystod y misoedd nesaf ar gyfer staff cymorth dysgu). Ar gyfer mis Medi, byddwn yn gallu darparu dyfais chromebook unigol ar gyfer dwy garfan blwyddyn gyfan, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu a diweddarau ein harfer addysgu ar gyfer y grwpiau blwyddyn hynny.

O fewn cyllideb yr ysgol rydym wedi uwchraddio pob cyfrifiadur ar ddesgiau athrawon, wedi ymestyn gorsafoedd TGCh mewn dau o'n dosbarthiadau TGCh ac wedi uwchraddio ac ymestyn ein camerau teledu cylch cyfyng ar draws y campws.

Lles a Diogelu

Mae'r cynllun Mentora Cymheiriaid, dan arweiniad Mrs Beca Newis, wedi bod yn rhan annatod o gymuned ein hysgol, lle mae Bl. 10 yn gweithredu fel mentoriaid i ddisgyblion iau. Datblygwyd y rhaglen yn ystod yr haf drwy hyfforddi llysgenhadon i redeg y rhaglen *Bullies Out*, "*Cryfder yw Rhannu*" yn yr ysgol o fis Medi.

Roedd yn sesiwn hyfforddi ysbrydoledig ac yn cymhell disgyblion i'r fath raddau fel y cynigir hyn yn ogystal i'n myfyrwyr newydd Bl 12 fel rhan o'u cwrs sefydlu yr haf hwn. Ein gobaith y bydd hyn yn datblygu rôl gofalu ein



Hyfforddiant Bl 10: "*Cryfder yw Rhannu*" *Bullies Out*

myfyrwyr hŷn ymhellach wrth iddynt roi o'u hamser, i helpu disgyblion sydd ar adegau, yn cael bywyd ysgol yn anodd.

Yng Nglantaf, fel y rhan fwyaf o ysgolion eraill Caerdydd, rydym wedi buddsoddi mewn system ar-lein newydd 'My Concern' sy'n ein helpu i gyfathrebu a monitro ein disgyblion mwyaf bregus yn gyson. Defnyddiwyd hwn o fewn yr ysgol a chan ein hysgolion clwstwr ers 2019, ond rydym bellach yn gallu cofnodi ac olrhain materion yn llawer mwy manwl. Gwnaethom ymestyn ein cymorth lles drwy sefydlu ystafell lles newydd ar gyfer disgyblion yn un o'n hen ystafelloedd dosbarth D&T. Bydd ein cefnogaeth bwrpasol o fewn yr ystafell hon yn cynnwys ymyriadau grŵp fel 'Disgybl Ffrwydro', 'ELSA', *Talkabout*, *Thrive*, sy'n gysylltiedig ag Iechyd Meddwl Sylfaenol, Therapi Celf, Byw'n Iach a Ffitrwydd yn ogystal â darpariaeth cwricwlwm amgen.

Roeddem hefyd yn falch o brynu 20 bwrdd picnic ychwanegol i'n disgyblion, mewn ymateb i sawl galwad am fwy o lefydd i eistedd a sgwrsio yn ystod amser cinio ac egwyl!

Darpariaeth Bwyd a Diod

Mae Glantaf yn hynod ffodus i elwa o dîm hynod brofiadol a chadarnhaol o staff arlwyo dan arweiniad Ms Serina Shephard a Mrs Julie Burns. Er gwaethaf maint cyfyngedig ein cegin a'n ffreutur, roeddem yn gallu cynnig pryd poeth canol dydd i'r mwyafrif helaeth o fyfyrwyr am yr holl amser yr oedd yr ysgol ar agor, fel arfer. Yn wir, mae'r ddarpariaeth arlwyo yn yr ysgol yn parhau i fod yn boblogaidd gyda disgyblion, gyda gwerthiant *Pryd y Dydd*, am bris o £3.05 wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r opsiynau dyddiol sydd ar gael – megis pryd y dydd, potiau Pasta, Salad, Pizzas a byrbrydau hefyd yn cynnwys opsiynau iach o ffrwythau, tatws pôb a llenwadau, baguettes a phaninis i annog bwyta'n iach a deiet cytbwys. Mae ein Bistro ar agor drwy'r dydd i fyfyrwyr y Chweched Dosbarth, yn parhau'n boblogaidd ac yn darparu amgylchedd gwaith proffesiynol ond anffurfiol i'n myfyrwyr. Dyfarnwyd y gradd 5 ar gyfer safonau hylendid i Glantaf yn 2019. Mae gennym ffynhonnau dŵr ar gyfer disgyblion a darperir dŵr yn rhad ac am ddim yn ystod amser cinio hefyd. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r system dalu heb arian parod sy'n hynod effeithiol i ddisgyblion gael gwasanaeth cyflym ac effeithlon wrth y tiliau.

Canolfan Glantaf / Cefnogaeth ADY (Atodiad C)



Gweler Atodiad C am adroddiad manwl ar ein cefnogaeth a'n gweithgarwch ADY. Fodd bynnag, mae angen i ni sôn am yr ardal ddysgu awyr agored newydd gwych a grëwyd drwy fuddsoddiad S4C, rhaglen *Prosiect Pum Mil*. Amlygodd y rhaglen un o nodweddion allweddol *Canolfan Glantaf*, sef yr awyrgylch gofalgwr a chreadigol sy'n bodoli rhwng disgyblion a staff.

Mae'r ardal allanol hon wedi cynnal ystod eang o weithgareddau yn ystod y flwyddyn, fel lleoliad i'n ceisiadau *Eisteddfod T*, fel llwyfan hystings ar gyfer ffug etholiad y Ganolfan, fel lleoliad ardderchog ar gyfer cyngerdd fyw gyda *Live Music Now* ond yn bwysicach fel lle hyblyg, diogel a diddorol i weithio'n greadigol ac ymlacio gyda ffrindiau.

Bu Mrs Wilson hefyd yn llwyddiannus wrth ennill buddsoddiad o fflyd o Feiciau Arbenigol ar gyfer ein myfyrwyr Canolfan, a noddwyd gan *Gynllun Teithio Llesol* Caerdydd. Roeddem hefyd yn ffodus i ennill fflyd o feiciau ar gyfer yr adran Addysg Gorfforol ac Addysgu Awyr Agored a fydd, gobeithio, yn cyrraedd cyn mis Medi.

Parhawyd ag agwedd bwysig iawn ar ein gwaith partneriaeth eleni, sef y fforwm ADY Clwstwr. Rydym wedi ymrwmo i weithio'n rhagweithiol gyda gwasanaethau ADY y sir, yn

benodol i gydlynu a gwella cymorth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â datblygu ein gwaith yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth ADY newydd.

Llais Dysgwyr a Phrif Swyddogion

Un agwedd sydd wedi cael ei heffeithio'n wael gan Cofid yw ein gwaith yn gwrando ar farn disgyblion. Mae cyfyngiadau ar gymysgu carfannau blwyddyn wedi golygu ei fod yn anodd dod â myfyrwyr at ei gilydd yn anffurfiol i drafod materion neu welliannau. Yn nhymor olaf y flwyddyn roeddem yn gallu dechrau ein rhaglen Mentora Cymheiriaid lle mae disgyblion hŷn yn mentora ac yn cynghori disgyblion ym Mlwyddyn 7-8. Cawsom ein calonogi hefyd gan y niferoedd uchel sy'n gwirfoddoli yn Bl 12 a 13 yn ein hymyriadau cymorth llythrennedd a rhifedd. Gwirfoddolodd dros 100 o fyfyrwyr 6ed Dosbarth wersi rhydd bob wythnos i weithio un i un gan ffocysu ar wella oeddrannau darllen disgyblion a gweithio drwy ymarferion mathemategol. Mae adborth myfyrwyr o'r sesiynau hyn wedi bod yn gadarnhaol dros ben.

Wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi byddwn yn ail-lawnsio ein cyngor ysgol ac yn ailfrandio'r fforwm fel Senedd Ysgol. Y rheswm am hyn yw pryderon nad oedd pob disgybl a oedd yn dymuno cyfrannu yn aml yn cael eu hethol yn aelodau o'r Cyngor, neu nad oedd sbectrwm barn digon eang yn amlwg ar y Cyngor Ysgol.

Roedd arweinyddiad a chyfraniad ein Prif Swyddogion eleni yn nodedig, a hynny drwy gyfarfodydd cyrff llywodraethu, Nosweithiau Agored rhithwir, gweminarau ac mewn trafodaeth strategol yn yr ysgol ar ddigwyddiadau elusennol a gwelliannau i ysgolion. Ein diolch a'n dymuniadau gorau i Catrin Mackie, Betsan Roberts, Rebecca Young a Rhodri Ashton-



Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth!

Williams, prif swyddogion 2020-21 a dymunwn yn dda i'r criw eleni, Lily Mohammed, Ariadne Koursarou, Osian Davies a Fred Wright yn 2021-22.

Datblygu arweinyddiaeth & newidiadau staffio

